


**BWRDD
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS
GWYNEDD AC
YNYS MÔN**



Dydd Llun, 24 Hydref 2022

10:30 – 11:00

Microsoft Teams

Cyfarfod arbennig Trosolwg o'r Cynllun Llesiant drafft a chytuno'r Amcan Llesiant arfaethedig a'r prif flaenoriaethau

Aelodau presennol:	
Enw	Sefydliad
Aled Jones-Griffith (AJG) - Cadeirydd	Grŵp Llandrillo Menai
Shan Morris (ShM)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffion Johnstone (FfJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Euros Jones (EJ)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ffrancon Williams (FW)	Adra
Glyn Jones (GJ)	Llywodraeth Cymru
Emyr Williams (EW)	Parc Cenedlaethol Eryri
Andrew Edwards (AE)	Prifysgol Bangor
Lyndsey Campbell-Williams (LCW)	Medrwn Môn
Rhys Hughes (RhH)	Cyngor Sir Ynys Môn
Sarah Andrews (SA)	Iechyd Cyhoeddus

Yn mynychu:	
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Cyngor Gwynedd
Sandra Thomas (ST)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Gwenan Pritchard (GP)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Ymddiheuriadau:	
Dafydd Gibbard	Cyngor Gwynedd
Cyng. Dyfrig Siencyn	Cyngor Gwynedd
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd
Stephen Hughes	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Andy Jones	Gwasanaeth Prawf
Gillian Jones	Gwasanaeth Prawf

Dylan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Sian Purcell	Medrwn Môn
Jo Whitehead	Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

Pwyntiau Gweithredu

1. Rhoi esboniad ehangach o'r meini prawf yn y cynllun - **Tîm Cefnogi BGC**
2. Angen sicrhau cysondeb geirfa a bod angen bod yn glir o ran beth sy'n dod a rhai pwyntiau i'r brig dros rhai eraill. - **Tîm Cefnogi BGC**
3. Angen esbonio sut mae'r blaenoriaethau wedi eu cyrraedd. - **Tîm Cefnogi BGC**
4. Tabl sy'n gosod y blaenoriaethau yn erbyn y meini prawf i nodi pa themâu mae'r pynciau yn ffitio - **Tîm Cefnogi BGC**
5. Poblogi y golofn sydd mewn glas ar gyfer 'posib mesur llwyddiant'. - **Tîm Cefnogi BGC**
6. EW i ddarparu sylwadau ar y iaith a deddfwriaeth. **EW**
7. Gyrru drafft pellach i'r Bwrdd wedi ei ddiwygio yn dilyn sylwadau heddiw ac byddai holiadur barn ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd yn cael ei llunio a'i danfon i ymgynghori - **Tîm Cefnogi BGC**
8. Cynnal cyfarfod gyda Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ddydd Gwener i drafod cynnydd - **Tîm Cefnogi BGC**
9. Ymgynghori gyda'r Bwrdd i ddigwydd yn fwy ffurfiol na proses ar e-bost, gan ddefnyddio Google Forms neu debyg. Angen cwestiwn yn gofyn os fydd angen i'r cynllun drafft gael ei rannu ymhellach nag aelodau'r bwrdd a dylid rhoi hynny yn yr holiadur arfaethedig. - **Tîm Cefnogi BGC**

Cofnod o'r drafodaeth

Eitem	Nodiadau	Pwy?	Erbyn pryd?
1	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawyd holl fynychwyr i'r cyfarfod arbennig hwn i drafod y Cynllun Llesiant drafft a chytuno ar yr amcan llesiant arfaethedig a'r prif flaenoriaethau.		
2	Crynodeb o'r gwaith hyd yma Rhoddodd ST drosolwg o'r broses o lunio'r Cynllun Llesiant drafft ar gyfer 2023-2028. Nodwyd bod y cynllun wedi ymgorffori sylwadau oedd wedi codi yn ystod y Gweithdai a gynhaliwyd dros Haf 2022 dan arweiniad Co-Pro Cymru. Nodwyd pwysigrwydd ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu gwaith. Nodwyd bod blaenoriaethau wedi eu pwyso a mesur gan ddefnyddio'r asesiadau llesiant, holiadur a'r gweithdai fel meini prawf.		
3 / 4	Adolygu'r Amcan Llesiant arfaethedig a'r prif flaenoriaethau / Cadarnhau'r broses a amlygwyd yn y Cynllun drafft Cafwyd drafodaeth am y meini prawf ac yn dilyn sylwadau GJ cytunwyd i rhoi esboniad ehangach o'r meini prawf yn y cynllun.	Tîm Cefnogi BGC	cgbm

	<p>Dyweddod ShM bod geiriad rhai o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen yn amrywio, a bod yn bwysig sicrhau cysondeb e.e. 'lliniaru' wedi ei ddefnyddio yn rhai enghreifftiau tra bod 'ymateb' mewn manau eraill. Nodwyd hefyd bod angen bod yn glir o ran beth sy'n dod a rhai pwyntiau i'r brig dros rhai eraill.</p> <p>Ychwanegodd DWJ bod angen esbonio sut mae'r blaenoriaethau wedi eu cyrraedd. Nodwyd yn ogystal bod gwerth rhoi eglurhad bod wrth adolygu yr amcanion llesiant presennol bod cyrff eraill wedi eu hadnabod sydd eisoes yn gwneud y gwaith.</p> <p>Awgrymodd AJG y dylai'r tabl sy'n gosod y blaenoriaethau yn erbyn y meini prawf nodi pa themâu mae'r pynciau yn ffitio gyda e.e. eu bod yn dal yn y cynllun ond yn eistedd o dan un o'r prif themâu fel is-benawdau yn y cynlluniau, a bod themâu yn croesi ar draws eu gilydd hefyd.</p> <p>Nododd EJ ei fod yn gweld y gwaith sgorio sydd i'w gweld yn y tabl yn bwysig, a bod yn bwysig cofio bod sawl her yn ein wynebu o ran costau byw, cofid, natur a newid hinsawdd ayyb.</p> <p>Ychwanegodd bod y blaenoriaethau wedi eu hadnabod yn y gweithdai a mae'r blaenoriaethau hyn yn cael sylw yn y Cynllun. Nododd ei fod yn awyddus nad oes gormod o benawdau yn cael eu cynnwys.</p> <p>Cytunwyd bod angen ychydig mwy o waith ar y cynllun ac angen poblogi y golofn sydd mewn glas ar gyfer 'posib mesur llwyddiant'.</p> <p>Dyweddod EW ei fod yn cytuno gyda'r tri themâu sydd wedi eu nodi fel blaenoriaeth ond angen ystyried sut byddwn yn cyflawni a bydd hyn angen ei adlewyrchu yn yr adroddiad. Ychwanegodd bod ganddo rhai sylwadau ar y iaith a deddfwriaeth yn ogystal a byddai yn rhannu nhw mewn e-bost gyda'r tîm. Ychwanegwyd bod angen cyswllt rhwng y cymunedau a'r gwasanaethau – pwysig peidio datganoli.</p> <p>Nodwyd bod cefnogaeth gyffredinol i'r cynllun drafft ond bod angen egluro sut byddwn yn mesur cynnydd.</p>	<p>Tîm Cefnogi BGC</p> <p>Tîm Cefnogi BGC</p> <p>Tîm Cefnogi BGC</p> <p>Tîm Cefnogi BGC</p> <p>EW</p>	<p>cgbm</p> <p>cgbm</p> <p>cgbm</p> <p>cgbm</p> <p>cgbm</p>
5	<p>Cadarnhau camau nesaf</p> <p>Nododd ST y byddai'n gyrru drafft pellach i'r Bwrdd wedi ei ddiwygio yn dilyn sylwadau heddiw ac byddai holiadur barn ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd yn cael ei llunio a'i danfon i ymgynghori cyn medru cytuno ar fersiwn fydd yn mynd allan i ymgynghoriad yn ystod cyfarfod fis Rhagfyr.</p> <p>Nodwyd o ran amserlen ein bod yn debyg i rhai o'r Byrddau eraill ar draws Cymru. Ychwanegwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ddydd Gwener i drafod cynnydd.</p> <p>Ychwanegodd AJG ei fod yn awyddus bod yr ymgynghori gyda'r Bwrdd yn digwydd yn fwy ffurfiol na proses ar e-bost, a byddai defnyddio Google Forms neu debyg yn opsiwn posib. Nodwyd bod angen cwestiwn yn gofyn os fydd angen i'r cynllun drafft gael ei rannu ymhellach nag aelodau'r bwrdd a dylid rhoi hynny yn yr holiadur arfaethedig.</p>	<p>Tîm Cefnogi BGC</p> <p>Tîm Cefnogi BGC</p> <p>Tîm Cefnogi BGC</p>	<p>2/11/22</p> <p>28/10/22</p> <p>4/11/22</p>
6	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Dim i'w adrodd.</p>		